# Y Cymoedd

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn amlinellu cymorth a gweledigaeth flaenorol a phresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector twristiaeth yn y Cymoedd, a'r potensial i sbarduno gweithgarwch economaidd a swyddi.

## 2.0 Data Cefndir

Rhwng 2012 a 2014, cafwyd 254,000 o ymweliadau dros nos o'r DU y flwyddyn, gydag ardal y Cymoedd (Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Caerffili, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen) yn derbyn 3% o'r holl deithiau i Gymru. Hyd pob arhosiad yw 2.6 noson ar gyfartaledd, sy'n is na chyfartaledd Cymru. Ar gyfartaledd, mae £106 yn cael ei wario ar bob taith, sydd hefyd yn is na chyfartaledd Cymru, sef £170 y daith. Cyfanswm y gwariant blynyddol ar ymweliadau dros nos o'r DU i'r Cymoedd yw £27 miliwn. Mae nifer yr ymweliadau a chyfanswm y gwariant wedi gostwng ers 2006-2008.

Mae dros ddau o bob tri o'r holl deithiau i ardal y Cymoedd yn ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau, sydd dros ddwywaith yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 27%. Mae yna gyfran isel o ymweliadau gwyliau, gyda llai na chwarter yr ymweliadau â'r rhanbarth at ddibenion gwyliau, o gymharu â thros dri o bob pump ar gyfer Cymru gyfan. Roedd y gwariant ar deithiau rhyngwladol i ardal y Cymoedd rhwng 2010 a 2014 wedi cynyddu o gymharu â lefel 2002-2006, ond bu gostyngiad rhwng 2009 a 2014, ac mae'r lefelau bellach wedi dychwelyd i lefelau tebyg i 2002-2006.

Ar gyfartaledd, cafwyd 36,000 o ymweliadau rhyngwladol â'r Cymoedd rhwng 2010 a 2014, gyda gwariant blynyddol o £27 miliwn ar gyfartaledd. Ar gyfartaledd, mae £767 yn cael ei wario ar bob ymweliad, a hyd pob arhosiad yw 8.7 noson ar gyfartaledd, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd. Mae lefel y gwariant ar bob ymweliad yn uwch na chyfartaledd Cymru, ynghyd â'r gwariant y noson, sef £87 o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef £54.

Mae tua 56% o'r ymweliadau rhyngwladol â'r Cymoedd yn ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r gyfran o ymweliadau at ddibenion gwyliau dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, gyda dim ond 22% o ymwelwyr rhyngwladol â'r Cymoedd yn ymweld at ddibenion gwyliau, o gymharu â 40% o'r holl ymwelwyr rhyngwladol â Chymru.

Mae 16,100 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector twristiaeth yn y Cymoedd (Ffynhonnell: Ystadegau Sector Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru), sef 7% o gyfanswm y gyflogaeth yn yr ardal. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 9%. Mae nifer yr hosteli a'r lletyau â gwasanaeth sydd ar gael ym mhob Awdurdod Lleol yn y Cymoedd yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae nifer y cyfleusterau gwersylla a charafanio sydd ar gael yn is na'r cyfartaledd.

## 3.0 Buddsoddiadau Cyfalaf Diweddar a Phosibl

Dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn unol â'r Strategaeth Twristiaeth 'Partneriaeth ar gyfer Twf', mae cymorth cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar brosiectau strategol sy'n gallu creu cynnyrch a fydd yn newid canfyddiadau pobl. Mae'r prosiectau cyfalaf hyn yn cynnwys:

<u>Cyllid yr UE 2007-2013 Rhaglen Twristiaeth Amgylchedd ar gyfer Twf</u>

**Merthyr Tudful**

Bike Park Wales (a ddarperir trwy raglen Amgylchedd ar gyfer Twf 2007-13), ar gost o £1.6 miliwn, gan ddarparu 12 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Datblygiad canolfan ymwelwyr beicio mynydd newydd ym Merthyr Tudful a gwblhawyd yn 2013 yw Bike Park Wales, ac mae'n cynnig safle 1,200 erw gyda thros 28 o lwybrau disgynnol wedi'u trefnu mewn ffordd debyg i leoliad sgïo. Mae llwyddiant y busnes wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal a chynnydd diweddar yn nifer y darparwyr llety ar raddfa fach newydd ym Merthyr Tudful (8 yn y flwyddyn ddiwethaf). Cafwyd 406,168 o ymweliadau â Bike Park Wales rhwng mis Ionawr 2014 a mis Rhagfyr 2015.

<u>Cyllid yr UE 2014-2020 – Rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaid (TAD)</u>

**Merthyr Tudful**

- Un prosiect strategol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yw ehangu ac uwchraddio'r Rock UK Centre, Trelewis, a ariennir gan y Rhaglen TAD a'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS). Nod Rock UK yw bod yn ganolfan ranbarthol ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn y De-ddwyrain, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a busnesau gweithgareddau eraill, gan gynnwys Bike Park Wales a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r gwaith yn cynnwys ehangu ac ailwampio hen adeilad y pwll glo, gan ei droi'n gyfleuster hamdden modern, croesawgar – gan gynnwys caffi newydd, ardal chwarae awyr agored a gweithgareddau awyr agored ychwanegol gyda llety ar gyfer 100 o westeion preswyl, gan gynnal dros 55 o swyddi. Cymeradwywyd y prosiect hwn ym mis Hydref 2016, ar gost o £4.6 miliwn.

**Pen-y-bont ar Ogwr (Porthcawl)**

- Datblygiad canolfan forol flaengar i gynnwys Canolfan Ddarganfod a Gwyddoniaeth yr Arfordir "SeaQuest", y gyntaf o'i bath yng Nghymru a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2016. Bydd yn gweithredu fel canolfan fusnes a rennir ar gyfer sawl elusen leol, pencadlys newydd ar gyfer Ffederasiwn Syrffio Cymru, uned hyfforddi newydd ar gyfer y Cadetiaid Môr a chanolfan newydd i sicrhau dyfodol ein Gwasanaethau Gwylwyr y Glannau, ac fe'i cefnogir gan weithgareddau twristiaeth, preswyl a masnachol ategol o safon, caffi/bistro dysgu a bwyty heb ei ail. Costau: £5,571,400, Cyfanswm ERDF: £2,134,060

**Torfaen/Caerffili (Camlas Mynwy ac Aberhonddu**)

- Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i'w gymeradwyo ym mis Mawrth 2017, a'i nod yw adeiladu ar y

buddsoddiad blaenorol sydd wedi'i wneud yn y gamlas a chreu momentwm ar gyfer prosiect mwy o faint, gwerth tua £80 miliwn, trwy ddarparu elfennau penodol yn rhannau Torfaen a Chaerffili o'r gamlas. Bydd basn newydd yng Nghwmbrân yn brosiect allweddol i ddatblygu a hyrwyddo canolfannau allweddol ar gyfer gweithgareddau awyr agored a seilwaith cysylltiedig ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu ac ar draws Mynydd Maen. Cyfanswm Costau: £5,129,951, Cyfanswm ERDF: £2,000,000

Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)

Mae £3 miliwn o gyllid y TISS wedi'i fuddsoddi dros y 5 mlynedd diwethaf mewn 12 prosiect, gan gynnal tua 234 o swyddi. Mae'n debygol y bydd y canlyniadau mwyaf effeithiol ar lefel y Cymoedd yn cael eu cyflawni trwy ganolbwyntio ar brosiectau sydd â'r potensial i sbarduno twf sylweddol a chreu swyddi. Er enghraifft, buddsoddiad y TISS ym mhrosiect y Bathdy Brenhinol, gyda'r Bathdy'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer adfywio e.e. troi Neuadd y Dref yn Llantrisant yn Ganolfan Ymwelwyr ar gyfer y dref.

Mae'r dull strategol hwn yn ceisio datblygu cynhyrchion a chlystyrau i gyd-fynd â datblygiadau nodweddiadol – megis Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru a'r angen am wasanaethau a llety ychwanegol o safon yn y rhanbarth, megis Datblygiadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol e.e. Pen y Fan.

Mae'r ffocws hwn ar brif brosiect cyfalaf, gyda phrosiectau ategol, wedi cyflwyno budd economaidd i rannau eraill o Gymru, megis yn ardal Zipworld. Er enghraifft, yn safle Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog, mae beicio mynydd a gweithgareddau eraill yn gweithredu fel hwb i dwristiaeth a mwy o effaith economaidd. Enghraifft arall yw datblygiad Harbwr Saundersfoot a'r prosiectau ategol ym mwytai The Boathouse a Coast.

Mae gwella ansawdd yr atyniadau, y llety a phrofiad ymwelwyr, yn enwedig yr arlwy o ran bwyd, yn allweddol i gefnogi twf a chreu swyddi yn y Cymoedd. Wrth i fwy a mwy o ymwelwyr sy'n gwario mwy o arian gael eu denu i gynnyrch newydd, byddant yn awyddus i gael llety o safon a phrofiadau bwyd heb eu hail. Yn ogystal, mae'r gwelliant yn y seilwaith twristiaeth a'r cyfleusterau i ymwelwyr yn allweddol i gadw ymwelwyr sy'n gwario mwy o arian yn y cyrchfan.

Y TISS yw'r mecanwaith allweddol ar gyfer cefnogi datblygiad cynnyrch, ac rydym yn deall bod penderfyniad cadarnhaol ynglŷn â chais o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) ar fin cael ei wneud. Bydd y prosiect RDP hwnnw yn arwain at fuddsoddiad ychwanegol mewn (a) seilwaith ymwelwyr a (b) busnesau twristiaeth micro – bach gyda chynigion i ddatblygu cynnyrch arloesol.

Mae ymholiadau cyfalaf presennol ar lefel strategol yn cynnwys:

- **Parc Caerau, Cwm Afan**: cyrchfan gwyliau antur newydd, ar safle 485 erw ar y ffin rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot,

gan gynnwys Academi Goroesi Bear Grylls, gwesty â 100 o welyau, 900 o letyau moethus, 'Parc Antur' dŵr, gweithgareddau awyr agored, barrau a bwytai. Mae ffigurau bras yn awgrymu y bydd tua 400 o swyddi'n cael eu creu yn ystod y cyfnod adeiladu, a 1,000 pan fydd y cyrchfan yn agor. Mae cyfarfod gyda'r datblygwyr wedi'i drefnu ar gyfer 15 Chwefror.

- **Melinau Trago, Merthyr Tudful**: Dechreuodd y gwaith ar y cyfleuster manwerthu a hamdden £40 miliwn ddiwedd mis Medi. Bydd y cyfleuster 30,250 metr sgwâr yn ymyl yr A470 yn hwb i'r Cymoedd fel cyrchfan manwerthu.

- **Planetariwm Cenedlaethol Cymru, Hirwaun**: Mae Awyr Dywyll Cymru yn trafod gyda Glofa'r Tŵr y posibilrwydd o adeiladu planetariwm o'r radd flaenaf, y mwyaf o'i fath yn y DU ar hyn o bryd, gyda thechnoleg arloesol sy'n gallu dangos y sioeau 3D diweddaraf mewn cydraniad 8K, ynghyd ag Arsyllfa, efelychydd robot ac arddangosiad meteoritau, gyda lle i 350 o bobl eistedd. Mae cynigion eraill yn cynnwys caffi/bwyty, ystafelloedd addysgu sy'n annog pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ac awditoriwm lle gellir cynnal cynadleddau mawr ac achlysuron eraill. Yn ogystal, bydd y safle'n cynnwys llwybrau beicio, llwybrau hanesyddol a chanolfan amgylcheddol. Mae cynlluniau tymor hir yn cynnwys datblygu gwesty/fflatiau sy'n ystyriol o'r awyr dywyll.

- **Cyn-ffatri restredig British Nylon Spinners ym Mamhilad, Torfaen**: profiad arloesol i ymwelwyr sy'n cyfuno atyniadau a gofod arddangos gyda chymysgedd o ofodau creadigol, celf, gwyddoniaeth a thechnoleg, caffis, bwytai, gofod manwerthu a gwesty a fflatiau gyda 60-120 o welyau (i ymwelwyr a/neu breswyl). Yn cynnwys draig fawr, naill ai wedi'i lapio am y tŵr neu mewn lleoliad amlwg.

- **Gorllewin Merthyr:** Mae buddsoddwyr o UDA wedi prynu safle Gorllewin Merthyr (600 erw) ac yn datblygu rhestr fer o gynigion sy'n cynnwys cyfleuster sgïo o safon ryngwladol a pharc dŵr dan do, ynghyd â gwesty a chabanau pren o safon uchel, parc natur/eco gyda gofod manwerthu, caffis a bwytai.

- **Neuadd Lanelay Tonysguboriau, Rhondda Cynon Taf**: troi cyn-bencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru yn 30 o unedau llety hunanddarpar o safon uchel gyda chyfleusterau hamdden.

- **Hen glwb cymdeithasol ym Mhen-coed**: ailwampio ac ehangu'r eiddo i gynnig gwesty gydag 18 o welyau dros 3 llawr, gan gynnwys bwyty gyda lle i 100 o bobl ac ystafell amlbwrpas.

- **Glynebwy**: gwesty 4* newydd gyda 120-130 bo welyau a chyfleusterau hamdden.

## 4.0 Cymorth Refeniw Presennol

Mae amryw o brosiectau refeniw yn cael eu cefnogi yn y Cymoedd trwy ein rhaglenni RTEF a TPIF, gan gynnwys:

**'Ymgyrch y Cymoedd' (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)**: Mae Croeso Cymru wedi cefnogi datblygiad Ymgyrch y Cymoedd, sef menter farchnata ar y cyd a arweinir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyda'r nod o hyrwyddo'r profiad a'r arlwy unigryw yn seiliedig ar bobl, treftadaeth a thirlun y Cymoedd i ddefnyddwyr o'r DU a'r farchnad VFR ('ymweld â ffrindiau a pherthnasau'). Mae Ymgyrch y Cymoedd yn bartneriaeth o 6 Awdurdod Lleol (Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr).

Mae gan y Cymoedd bob math o fythau a chwedlau y gellir eu hyrwyddo i ymwelwyr gyda ffyrdd arloesol o ddarparu gwybodaeth a phrofiadau trwy'r wefan bresennol, gyda phwyslais ar fythau a chwedlau. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar y cryfderau hyn ac yn rhoi sylw i gynhyrchion y Cymoedd, gan gynnwys atyniadau allweddol, llwybrau, llefydd o ddiddordeb a chynhyrchion newydd sy'n gysylltiedig â chwedlau; bydd y rhain yn cael eu hyrwyddo trwy'r ymgyrch farchnata 'Blwyddyn y Chwedlau'. Dyfarnwyd £20,000 i'r ymgyrch ar gyfer 2016/17.

Mae gwelliannau'n cael eu gwneud i'r wefan er mwyn newid Arwyr y Cymoedd i fod yn 'Chwedlau'r Cymoedd', gydag isadrannau megis Mythau, Straeon, Chwedlau Byd y Campau, Arwyr Diwydiant, Awduron, Perfformwyr. Cynhelir cyfres o benwythnosau gyda digwyddiadau thematig mewn gwahanol leoliadau ar draws y Cymoedd - straeon ysbryd/teithiau ysbryd, mythau ac ati. Bydd y rhain yn rhoi mwy o reswm i bobl ymweld â'r rhanbarth, yn ogystal â hyrwyddo'r ardal i ymwelwyr fel lle i ddod am seibiant byr/i aros dros nos. Bydd Canllaw i'r Cymoedd 2017 yn adlewyrchu naws yr ymgyrch thematig.

**TVTCTW**: Mae 'The Valleys that changed the World' yn fenter sy'n annog partneriaid treftadaeth i weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo a dehongli stori ein gorffennol diwydiannol. Mae pob math o bartneriaid yn y rhwydwaith, gan gynnwys Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Cadw. Nod y prosiect yw datblygu mentrau gweithio ar y cyd, ynghyd â darparu cymorth ymarferol o ran gwella gwybodaeth, rhwydweithio a marchnata. Mae 'The Valleys that changed the World' yn rhan o'r European Route of Industrial Heritage hefyd.

Mae pob un o'r 10 Awdurdod Lleol yn cymryd rhan yn y prosiect **Capital Regional Travel Trade and Attractions (CRTTA)**. Bydd y prosiect hwn yn parhau i ddefnyddio dulliau sydd wedi hen ennill eu plwyf i ddenu busnes y diwydiant teithio a theithio mewn grŵp i'r rhanbarth, gan gynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo, amserlenni sy'n gysylltiedig â blynyddoedd thematig, arddangosiad prynwyr grŵp a chymorth ar gyfer CruiseCymru.

Mae yna brosiectau arloesol ar raddfa fawr yn cael eu datblygu a fydd yn adrodd gorffennol diwydiannol y Cymoedd mewn ffordd fodern yn 2017 a 2018.

## 5.0 Digwyddiadau Pwysig

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi amryw o ddigwyddiadau chwaraeon a diwylliannol yn y Cymoedd, yn amrywio o ddigwyddiadau rhyngwladol mawr megis y Tour of Britain (ras feicio broffesiynol fwyaf y DU) i ddigwyddiadau lleol megis Roald Dahl 100 a Gŵyl Steelhouse. Ar hyn o bryd, mae'r Uned Digwyddiadau Mawr yn gweithio gyda phartneriaid lleol i archwilio cyfleoedd newydd i gynnal digwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau cyfeiriannu a beicio mynydd rhyngwladol mawr.

## 6.0 Ymgysylltu a Chyfleoedd

Mae swyddogion yn cynnal cyfres o weithdai yn y Cymoedd i ddarparu cyfleoedd i fusnesau drafod cymorth ariannol wyneb yn wyneb. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod pobl leol yn manteisio ar gyfleoedd swyddi a budd economaidd o ganlyniad i fuddsoddiadau.
- Adrodd stori'r dreftadaeth ddiwydiannol mewn ffordd arloesol.
- Parhau i gefnogi'r sector gweithgareddau ac annog gwaith partneriaeth agosach i droi mwy o ymweliadau dydd yn arosiadau dros nos.
- Buddsoddi yn llety ac arlwy bwyd y Cymoedd.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn Cadw i archwilio'r potensial i ddatblygu'r profiad yng Nghastell Caerffili i gynyddu nifer yr ymwelwyr.
- Sicrhau bod y system Metro arfaethedig o fudd i'r arlwy o ran twristiaeth yn y Cymoedd. Rhaid i'r ddarpariaeth newydd hon gynnwys cyfleoedd i gynnig tocynnau ar y cyd i atyniadau a llety yn y Cymoedd.
- Mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o'r Cymoedd fel cyrchfan i dwristiaid a chreu gweledigaeth a brand ôl-ddiwydiannol newydd.

## 7.0 Casgliad

Gan ddefnyddio'r datblygiad Metro, mae yna gyfle i adnewyddu neges y Cymoedd a datblygu brand credadwy, er enghraifft, gallai hwn fod ar ffurf brand 'Prifddinas-Ranbarth Caerdydd', gan rwymo'r rhanbarth â Chaerdydd – yn yr un modd â 'Manceinion Fwyaf' ac annog pobl i fyw/ymweld â llefydd y tu hwnt i'r ddinas.

Fel arall, gallai fod symudiad tuag at y cysyniad o'r Cymoedd fel math newydd o ofod byw a chwarae y tu allan i Gaerdydd ac i'r de o Fannau Brycheiniog – fel y mae Swydd Efrog wedi'i wneud gyda'i ardaloedd ôl-ddiwydiannol. Yr ateb yw datblygu stori ôl-ddiwydiannol newydd ar gyfer Cymru yn gyffredinol.

Yr hyn sy'n glir yw bod gweithgareddau a chyfleoedd sylweddol ar y gweill ar ffurf cynnyrch twristiaeth newydd ar raddfa fawr ar gyfer y Cymoedd, felly bydd trafodaethau'n parhau i nodi'r prosiectau arweiniol hynny a sut i sicrhau'r effaith a'r budd economaidd mwyaf.